**PRIFFYRDD, CYMRU**

**2009 Rhif 50**

**DEDDF PRIFFYRDD 1980**

# GORCHYMYN CEFNFFORDD CAERDYDD I LANCONWY (YR A470) (CWM-BACH I'R BONTNEWYDD AR WY) (FFYRDD YMYL) 2009

*Gwnaed* *31 Rhagfyr 2009*

*Yn dod i rym* *6 Ionawr 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12, 14, 125 a 268 o Ddeddf Priffyrdd 1980**(1)**, a phob pŵer galluogi arall **(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi cael eu hawdurdodi ynglŷn â'r gefnffordd o fan i'r de o Gwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy, yn Sir Powys –

(a) i wneud y gwaith o wella priffyrdd;
(b) i gau priffyrdd neu rannau o briffyrdd;
(c) i adeiladu priffyrdd newydd;
(ch) i gau mynedfeydd preifat i fangreoedd, a
(d) i ddarparu mynedfeydd newydd i fangreoedd.

2. (1) Dynodir y gwaith a awdurdodir gan erthygl 1 yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn sydd wedi'u rhifo o 1 i 4 ac fe'i dangosir ar y planiau safle sydd wedi'u rhifo o 1 i 4 ac a gynhwysir yn y plan a adneuwyd sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn yn y dull canlynol:-

(a) dangosir priffyrdd sydd i'w gwella â llinellau rhesog ac fe'u henwir;

(b) caiff darnau a rhannau o briffordd sydd i'w cau eu disgrifio (gan nodi mai amcangyfrif yn unig yw pob pellter a roddir) ac fe'u dangosir â llinellau rhesog sebra;

(c) dynodir priffyrdd newydd sydd i'w hadeiladu drwy ddefnyddio llythrennau

cyfeiriadol yn yr Atodlen, sy'n cael eu rhoi i'r priffyrdd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fydd priffordd newydd i'w hadeiladu mewn cysylltiad â chau darn neu ran o briffordd a ddisgrifir mewn Atodlen, rhoddir y llythyren gyfeiriadol briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw neu'r rhan honno a phan fydd priffordd newydd i fod yn llwybr troed, yn llwybr beicio neu'n llwybr ceffylau, bydd y gair “footpath” neu “cycle track” neu “bridleway” (yn ôl y digwydd) yn ymddangos mewn cromfachau oddi tan y llythyren gyfeiriadol. Caiff llwybrau priffyrdd newydd fydd yn cael eu hadeiladu eu dangos â dotwaith a chaiff llinell ganol pob priffordd newydd ei dangos â llinell ddu heb ei thorri;

(ch) disgrifir darnau sydd i'w cau o fynedfeydd preifat (bras amcan yn unig yw pob pellter), a rhoddir iddynt y cyfeirnodau a ddangosir ar y plan a adneuwyd ac fe'u dangosir â bandiau duon, a

(d) dynodir mynedfeydd newydd sydd i'w darparu yn yr Atodlen drwy ddefnyddio'r rhifau a'r llythrennau cyfeiriadol a roddir i'r mynedfeydd newydd hynny ar y plan a adneuwyd. Pan fydd mynedfa newydd i'w darparu mewn cysylltiad â chau darn o fynedfa breifat a ddisgrifir yn yr Atodlen honno, rhoddir y rhif cyfeiriadol a'r llythyren gyfeiriadol briodol gyferbyn â'r disgrifiad o'r darn hwnnw. Dangosir llwybrau mynedfeydd preifat newydd â llinellau lletraws.

(3) Mae'r plan a adneuwyd yn nodi safle'r gefnffordd a llwybr y gefnffordd newydd mewn perthynas â'r gwaith awdurdodedig a ddangosir ar y plan a adneuwyd.

(4) Pan fydd rhan o briffordd sydd i'w chau yn cyd-fynd â llwybr gwaith awdurdodedig sy'n briffordd newydd neu'n fynedfa newydd ni chaiff y rhan honno ei dangos â llinellau rhesog sebra ar y plan a adneuwyd.

3. Datgenir drwy hyn fod Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni:-

(1) o ran pob darn neu ran o briffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi eu cau, fod yna lwybr arall rhesymol o gyfleus ar gael, neu y bydd un yn cael ei ddarparu, cyn y bydd y darn hwnnw o'r gefnffordd yn cael ei gau; a

(2) o ran pob mynedfa breifat i fangre yr awdurdodir ei chau gan y Gorchymyn hwn, fod yna fynedfa arall resymol o hwylus ar gael i'r fangre berthnasol neu y bydd un yn cael ei darparu cyn i'r fynedfa breifat honno gael ei chau neu nad oes gofyn rhesymol am fynedfa newydd i'r fangre berthnasol.

4. Mae pob priffordd newydd i gael ei throsglwyddo i Gyngor Sir Powys fel y dynodir yn y cyfryw Atodlen, o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu'r Cyngor ei bod wedi'i chwblhau a'i bod ar agor ar gyfer traffig trwodd.

5. Yn union ar ôl trosglwyddo priffordd newydd y dangosir dosbarthiad ar ei chyfer yn yr Atodlen berthnasol gyferbyn â llythyren gyfeirnod y briffordd newydd honno, caiff y briffordd honno ei dosbarthu yn unol â hynny.

6. Pan wneir darpariaeth yn y Gorchymyn hwn:-

a. i drosglwyddo priffordd newydd i Gyngor Sir Powys
   neu
b. i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau i briffordd a freiniwyd yng Nghyngor Sir Powys

yna (yn ddarostyngedig i ddarpariaethau adran 268(3) o Ddeddf 1980) trosglwyddir unrhyw eiddo, hawliau neu rwymedigaethau (ac eithrio benthyciadau neu ffioedd am fenthyciadau) sydd wedi'u breinio yng Ngweinidogion Cymru, neu a dynnir ganddynt mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r gwaith gwneud newidiadau, i Gyngor Powys ar ddyddiad trosglwyddo'r cyfryw briffordd neu ar ddyddiad cwblhau'r gwaith neu'r gwaith gwneud newidiadau, neu ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru yn caffael y tir mewn cysylltiad â'r briffordd newydd neu'r gwaith gwneud newidiadau, yn ôl y digwydd.

7. Os, yn union cyn cau darn o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, y bydd unrhyw offer ymgymerwyr statudol o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd, neu ar ei thraws, yna, yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd gan yr ymgymerwyr hynny yr un hawliau o ran

yr offer hwnnw ag a oedd ganddynt yn union cyn cau'r briffordd.

8. Yn y Gorchymyn hwn:

(1) mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol neu'r mynedfeydd perthnasol i fangreoedd, yn ôl y digwydd;

(2) (i.) ystyr “ffordd ddosbarthiadol” (*“classified road”*), fel dosbarthiad i briffordd newydd, yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd yn brif ffyrdd ond ei bod yn ffordd ddosbarthiadol at ddibenion pob deddfiad ac offeryn sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Weinidogion Cymru ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad yn brif ffyrdd;

(ii.) mae “gwelliant” a “gwella” *(“improvement”)* mewn perthynas â phriffordd yn cynnwys codi, gostwng neu wneud newidiadau i'r briffordd honno mewn modd arall, a rhaid dehongli “wedi'i gwella” yn unol â hynny;

(iii.) ystyr “priffordd newydd”*(“new highway”)* yw priffordd y mae'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi ei hadeiladu, a rhaid dehongli “priffyrdd newydd” *(“new highways”)* yn unol â hynny;

(iv.) ystyr “y plan a adneuwyd" *(“the deposited plan”)* yw'r plan sy'n cynnwys y planiau safle sy'n dwyn y rhifau 1 i 4 a geir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WAG 3 ac sydd wedi'i farcio “Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) (Ffyrdd Ymyl) 2009" a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac sydd wedi'i adneuo yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

(v.) ystyr “y plan safle” *(“the site plan”)* yw un o'r planiau safle sy'n dwyn y rhif 1 i 4 a geir yn y ffolio planiau sy'n dwyn y rhif HA14/1 WAG 3 ac y cyfeirir ato fel “y plan a adneuwyd” ym mharagraff (iv.) uchod o'r Erthygl hon;

(vi.) ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470);

(vii.) ystyr “y gefnffordd newydd” *("the new trunk road"*) yw'r gefnffordd sydd i'w hadeiladu yn unol â Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) 2009;

(viii) ystyr “ffordd ddiddosbarth” (“*unclassified road”)* yw priffordd nad yw'n ffordd ddosbarthiadol nac yn llwybr troed nac yn llwybr beiciau nac yn llwybr ceffylau ac sydd heb ddosbarthiad ffurfiol.

(xi) ystyr “cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT)” *(“byway open to all traffic (BOAT)”*) yw priffordd y mae gan y cyhoedd hawl tramwy drosti ar gyfer cerbydau a phob math arall o draffig ond a ddefnyddir yn bennaf gan y cyhoedd at yr un dibenion ag a ddefnyddir ar gyfer llwybrau troed a llwybrau ceffylau.

9. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Ionawr 2010 a'i enw yw 'Gorchymyn Cefnffordd Caerdydd i Lanconwy (yr A470) (Cwm-bach i'r Bontnewydd ar Wy) (Ffyrdd Ynyl) 2009'.

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig 31 Rhagfyr 2009

**J COLLINS**
Dirprwy Gyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(**1**) 1980 p.66

**(2)** Yn rhinwedd O.S . 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru.